

Rhif: WG18958



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Rheoli Pysgodfeydd Cocos yng Nghymru – Adolygiad Pellach 2013



Dyddiad cyhoeddi: **10 Gorffennaf 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **2 Hydref 2013**

Trosolwg

Gweledigaeth Strategaeth Pysgodfeydd Cymru a gyhoeddwyd yn 2008 yw cynorthwyo i ddatblygu pysgodfeydd hyfyw a chynaliadwy yng Nghymru i ddiogelu stociau pysgod a'r amgylchedd morol.

Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ei fwriad i adolygu'r modd y caiff pysgodfeydd rhynglanwol eu rheoli yng Nghymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol llwyddiannus yn 2012. Mae'r canlyniad a'r dadansoddiad wedi arwain at ystyried rhai o elfennau'r cynigion ymhellach, yn enwedig y dull o ddyrannu trwyddedau dan drefn newydd o reoli cocos yng Nghymru.

Felly, mae ymgynghoriad pellach wedi'i lansio i gael eich barn ar fanylion y broses ddyrannu ac er mwyn esbonio protocolau'r cynllun rheoli newydd ar gyfer pysgodfeydd cocos yng Nghymru.

Rydym yn croesawu eich barn ar y cynigion er mwyn sicrhau bod pysgodfeydd cynaliadwy yn cael eu rheoli'n effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a bod hynny'n cyd-fynd ag anghenion cymunedau lleol.

Sut i ymateb

Mae croeso i chi ymateb mewn unrhyw fodd, ond rydym wedi cynnwys holiadur syml gyda'r ddogfen hon y gallwch ei lenwi a'i ddychwelyd atom i'r cyfeiriad e-bost neu'r cyfeiriad post a ddarperir isod.

Cofiwch roi'ch manylion cyswllt a manylion unrhyw gorff rydych chi'n ei gynrychioli os yw'n briodol.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Ymatebion drwy e-bost fyddai orau gennym: fisheriesmailbox@cymru.gsi.gov.uk

Mae croeso i chi ymateb drwy'r post hefyd:
Yr Uned Bysgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Llys y Ddraig
Parc Busnes Penllergaer
Penllergaer
Abertawe
SA4 9NX

Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn.

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld

gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2012 ar Reoli Cocos yng Nghymru, er mwyn casglu ymateb i'r cynigion ar y drefn newydd o reoli gwelyau cocos yng Nghymru. Byddai'r drefn reoli newydd yn sbarduno'r angen am fwy o reoleiddio er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i Bysgodfeydd Cocos ein gwlad.

Mae'r Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyflwyno mandad clir ar gyfer cyflwyno trefn newydd ar gyfer Pysgodfeydd Cocos ledled Cymru, er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r pysgodfeydd a chynyddu dulliau olrhain a gorfodi. Cafwyd cefnogaeth i'r canlynol:

- a) cynllun cocos diwygiedig yng Nghymru;
- b) mabwysiadu dull amlasiantaeth;
- c) dull gwell o olrhain cocos; anc;
- d) cyflwyno rhagor o reoliadau
- e) cynllun pysgotwr/prentisiaeth if a gwaharddiadau;
- f) pysgota gydol y flwyddyn, ar sail cyfanswm y ddalfa a ganiateir;

Er hynny, roedd hi'n amlwg bod angen ystyried ymhellach ganlyniadau amhendant. Nawr, rydym yn lansio ymgynghoriad pellach sy'n amlinellu cynigion manwl Gweinidogion Cymru ar y mesurau hyn ac eraill.

Crynodeb

Nod y cynigion newydd ar gyfer rheoli cocos yng Nghymru yw gwella'r broses o reoli a sicrhau cynaliadwyedd y pysgodfeydd cocos a'r amgylchedd morol yng Nghymru. Byddwn yn cyflawni hyn drwy bennu rheoliadau llymach ar gyfer casglu masnachol mewn pysgodfeydd cocos. Bydd angen newid y drefn gyfredol o reoleiddio pysgodfeydd cocos cyn gweithredu'r cynigion newydd a nodir yn y ddogfen hon.

Y cynigion dan sylw yw creu Cynllun Trwyddedau Cymru Gyfan ar gyfer casglu cocos yn fasnachol (trwydded), ar y cyd â chynllun trwyddedau ar wahân ar gyfer y prif bysgodfeydd cocos dethol (Prif Drwydded). Yn y lle cyntaf, y ddwy brif bysgodfa a nodwyd at ddibenion y cynllun trwyddedu hwn yw Traeth Lafan (ger Bangor, Gwynedd) a Physgodfa Gocos y Tair Afon (Bae Caerfyrddin).

Mae dwy brif bysgodfa gocos eisoes ar waith, yn naill yn Aber Afon Dyfrdwy (y Gogledd) a'r llall yng Nghilfach Tywyn (y De), ond mae'r ddwy yn cael eu rheoleiddio dan Orchmynion Rheoleiddio ac yn cael eu rheoli ar hyn o bryd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, fel Grantî'r Gorchmynion. Ni fydd y cynigion hyn yn newid cynlluniau rheoli sefydledig Aber Afon Dyfrdwy a Chilfach Tywyn, ond cynigir y bydd yn rhaid i bawb sydd â thrwydded i bysgota yn y ddwy bysgodfa hyn hefyd fod â thrwydded bysgota dan Gynllun Trwyddedau Cymru Gyfan yn y dyfodol.

Fel rhan o'r cynigion hyn, rydym yn bwriadu cyflwyno system newydd orfodol o ddychwelyd ffurflenni sy'n nodi faint o gocos a gasglwyd. Nod y ffurflenni hyn yw darparu gwybodaeth a fydd yn helpu i lywio'r dulliau o reoli'r defnydd o adnoddau

cocos a'r amgylchedd morol yn y dyfodol, ac yn helpu i leihau'r cyfleoedd i botsio cocos. Cynigir bod Llywodraeth Cymru yn cadw cronfa ddata o gofnodion casglu er mwyn gallu eu cymharu â chofnodion eraill sydd gan y proseswyr. Fel rhan o'r cynigion, rydym yn ystyried y posibilrwydd o rannu'r gronfa ddata hon gyda rhanddeiliaid priodol fel Awdurdodau Lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Bydd rhagor o wybodaeth am yr ystyriaeth hon yn y canllawiau perthnasol a fydd yn cyd-fynd â chais am drwydded, gan gynnwys datganiadau priodol sy'n ymwneud â goblygiadau diogelu data.

Fframwaith Cyfreithiol

Yn hanesyddol, y Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr yng Nghymru oedd yn rheoli pysgodfeydd cocos. Fodd bynnag, diddymwyd y Pwyllgorau ar 1 Ebrill 2010, a chafodd y rhan fwyaf o'r Is-ddeddfau, gan gynnwys y rhai a ddeddfwyd at ddibenion rheoli cocos, eu harbed, ac maent bellach yn weithredol fel pe baent wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru mewn Offeryn Statudol.

Dan y cynigion newydd, bydd cynllun rheoli pysgodfeydd cocos newydd yn cael ei sefydlu drwy greu Offeryn Statudol newydd. Gan ddefnyddio pwerau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, cynigir y bydd yr Offeryn Statudol newydd yn cyflwyno'r cynllun trwyddedu cyfyngol newydd. Y bwriad hefyd yw cyflwyno rhywfaint o fesurau ychwanegol, er enghraifft, pennu isafswm maint y cocos y gellir eu glanio yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni cynigion y ddogfen hon, bydd angen newid y rheoliadau cyfredol ar gyfer pysgodfeydd cocos yng Nghymru. Rhagwelir y bydd rhai o'r Is-ddeddfau y cyfeirir atynt uchod ac Offerynnau Statudol penodol yn cael eu diwygio neu eu dirymu gyda'r bwriad o sicrhau bod y cynlluniau newydd yn cael eu cyflwyno mewn un Offeryn Statudol. Bydd hyn yn sicrhau bod y rheoliad newydd ar gyfer pysgodfeydd cocos yng Nghymru mor glir a hygyrch â phosibl, ac yn haws i'w orfodi hefyd.

Mae'r mater yn cael ei adolygu ar hyn o bryd wrth i ni ddatblygu'r polisi, a rhagwelir y bydd angen diwygio'r Is-ddeddfau hynny a ddeddfwyd at ddibenion rheoli cocos yn ogystal â Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011. Mae'r is-ddeddfau perthnasol yn Atodiad 3 er gwybodaeth.

Yn gryno, rhagwelir y bydd angen diwygio neu ddirymu'r darpariaethau canlynol er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r cynlluniau trwyddedu newydd:

- i) Bydd angen diwygio Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011 sy'n gwahardd pysgota cocos a chregyn gleision mewn ardal benodedig oni bai bod y weithgaredd a gyflawnir yn unol â thrwydded a ddyrannwyd gan Weinidogion Cymru (i'r graddau y mae'n berthnasol i gocos).
- ii) Bydd angen diwygio Is-ddeddf 21 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt a chyflwyno darpariaeth gyfatebol o fewn y cynllun trwyddedu newydd
- iii) Bydd angen diwygio Is-ddeddfau 22 a 23 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt, sy'n berthnasol i 'bysgod cregyn' fel nad ydynt yn

berthnasol i gocos yn y dyfodol. Cyflwynir darpariaeth newydd gyfatebol ar gyfer cocos o fewn y cynlluniau trwyddedu newydd.

- iv) Mae Is-ddeddf 40 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt ac Is-ddeddf 12 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru gynt yn rheoleiddio pysgota molysgiaid dwygragennog â thrwydded. Bydd angen diwygio'r ddwy is-ddeddf yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r holl folysgiaid dwygragennog ac eithrio cocos. Bydd darpariaeth newydd ar gyfer pysgota cocos yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r cynllun trwyddedu newydd.
- v) Bydd angen dirymu Is-ddeddf 48 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt. Bydd darpariaeth newydd sy'n uniongyrchol berthnasol i Bysgodfa Gocos y Tair Afon (un o'r 'Prif Bysgodfeydd' arfaethedig) yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r cynllun trwyddedu newydd.
- vi) Mae Is-ddeddf 13A Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru gynt yn berthnasol i gocos a chregyn gleision ar hyn o bryd, ac yn caniatáu ar gyfer cau pysgodfa am gyfnod penodol. Rhagwelir y bydd hon yn cael ei diwygio fel nad yw'n berthnasol i gocos yn y dyfodol, a bydd y darpariaethau newydd yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r cynllun trwyddedu newydd.
- vii) Bydd angen dirymu Is-ddeddf 14 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru gynt. Yn y dyfodol, rhagwelir na fydd tymhorau caeedig yn berthnasol i bysgodfeydd cocos yng Nghymru ac eithrio'r Prif Bysgodfeydd arfaethedig.
- viii) Mae Is-ddeddfau 16 ac 17 Pwyllgor Pysgodfeydd Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru gynt yn berthnasol i bysgod cregyn ar hyn o bryd ac yn darparu ar gyfer cau pysgodfeydd pysgod cregyn dros dro ac ailddyddodi pysgod cregyn. Rhagwelir y bydd yr is-ddeddfau hyn yn cael eu diwygio fel eu bod yn berthnasol i'r holl bysgod cregyn ac eithrio cocos yn y dyfodol. Bydd darpariaeth newydd a chyfatebol yn cael ei chyflwyno o fewn y cynllun trwyddedu newydd.

Ar hyn o bryd, rydym hefyd yn rhagweld y bydd angen diwygio neu ddirymu'r darpariaethau canlynol er mwyn gwneud lle ar gyfer cyflwyno'r gofynion isafswm maint newydd mewn perthynas â glanio cocos.

- ix) Bydd Is-ddeddf 13 C Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt ac Is-ddeddf 13 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru yn cael eu dirymu. Cynigir cyflwyno darpariaeth newydd a fydd yn pennu isafswm maint at ddibenion adran 1(1) Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 yn rhan o'r Offeryn Statudol newydd.

Cynllun Trwyddedau Cymru Gyfan arfaethedig

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno cynllun trwyddedau newydd lle bydd gofyn i bawb sy'n dymuno pysgota cocos yn fasnachol unrhyw le yng Nghymru, wneud cais am gerdyn adnabod trwydded gyfredol priodol a dal trwydded o'r fath.

Bydd angen i bob unigolyn sy'n dymuno casglu cocos unrhyw le yng Nghymru (gan gynnwys y pysgodfeydd presennol sydd wedi'u rheoleiddio yng Nghilfach Tywyn ac Aber Afon Dyfrdwy) gofrestru ar Gynllun Trwyddedau Cymru Gyfan. Bydd hawl gan gasglwyr anfasnachol (y cyhoedd) i gasglu hyd at 5kg y dydd heb drwydded, yn amodol ar unrhyw reolau ychwanegol sy'n berthnasol i bysgodfeydd unigol o bryd i'w gilydd.

Byddwn yn codi ffi weinyddol ar bob ymgeisydd, sef £20 i ddechrau (i'w hadolygu'n flynyddol). I gael trwydded, rhaid i bob ymgeisydd fod â Thystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth gan Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr a gall Gweinidogion Cymru fynnu bod gwybodaeth angenrheidiol yn cael ei rhoi er mwyn ystyried cais.

Ar ôl cael trwydded, bydd deiliaid trwydded yn cael eu hatgoffa o'r angen i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau perthnasol sy'n ymwneud â chynaeafu a chasglu pysgod cregyn (gan gynnwys cocos) yng Nghymru. Bydd yn cynnwys canllawiau ar y rheolau, y rheoliadau a'r gofynion perthnasol ar lenwi ffurflenni gorfodol Llywodraeth Cymru ar gasglu pysgod cregyn, fel y nodwyd yn y cynigion hyn.

Cyflwynir y drwydded ar ffurf cerdyn adnabod plastig ac ni fydd unrhyw gyfyngiadau o ran nifer y trwyddedau a ddsberthir i ddechrau. Byddant yn gardiau caled sy'n para'n dda, a rhaid i'r holl gasglwyr cocos gweithredol eu cario gyda nhw drwy'r adeg. Ni fydd modd eu trosglwyddo, a rhaid gwneud cais amdanynt yn bersonol yn un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Bydd y drwydded yn cynnwys manylion perthnasol y casglwr yn ogystal â llun ffotograff diweddar, a bydd hologram wedi'i brintio dros y cerdyn cyfan fel nod diogelwch.

Rydym yn trafod y posibilrwydd o ystyried collfarnau blaenorol perthnasol pan fydd pobl yn gwneud cais am drwyddedau, a phennu polisi disgyblu lle gellir cymryd trwydded oddi ar ddeiliad sydd wedi torri'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Cynllun Trwyddedau'r Prif Bysgodfeydd arfaethedig

Fel y nodwyd, o dan y cynigion hyn bydd rhai pysgodfeydd penodol yn cael eu dosbarthu'n 'Brif Bysgodfeydd'. Byddant yn destun gwaharddiadau lle cyfyngir ar y niferoedd sy'n cael pysgota yno. Yn y lle cyntaf, bydd y diffiniad hwn yn berthnasol i'r ddwy bysgodfa yn Nhraeth Lafan (ger Bangor, Gwynedd) ac Aberoedd y Tair Afon (Bae Caerfyrddin).

Bydd pob prif bysgodfa yn cael ei rheoli'n unigol, gydag amodau'r drwydded wedi'u teilwra i amgylchiadau lleol. I'r perwyl hwn, bydd Pwyllgorau Rheoli Lleol yn cael eu sefydlu, yn cynnwys pysgotwyr, cyrff cymuned lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tîm Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru, cynrychiolydd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Bydd y Pwyllgor yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar sefydlu Cynllun Rheoli Pysgodfeydd sy'n cwmpasu materion sy'n berthnasol i'r bysgodfa arbennig dan sylw.

Ni chaiff unrhyw un bysgota cocos mewn prif bysgodfa gocos yng Nghymru heb drwydded ddilys ar gyfer y brif bysgodfa gocos honno. Bydd angen trwydded dan Gynllun Trwyddedau Cymru Gyfan ar gyfer y prif bysgodfeydd i gyd. Mae hyn yn cynnwys pysgodfeydd sy'n destun Gorchymynion Rheoleiddio, ond i ddeiliaid trwydded cyfredol y Gorchymyn Rheoleiddio, bydd y trwyddedau'n cael eu dyrannu mewn cydweithrediad â Chyfoeth Naturiol Cymru ar ôl derbyn ffi'r drwydded, heb unrhyw dâl pellach.

Bydd angen i ffioedd trwyddedau'r prif bysgodfeydd dalu am ran sylweddol o gostau rheoli pob pysgodfa. Yn y flwyddyn gyntaf, awgrymir pris o £1,500 am drwydded prif bysgodfa (Traeth Lafan a'r Tair Afon). Cyfrifwyd y ffigur hwn ar sail gwir gostau cynnal y pysgodfeydd yn y blynyddoedd blaenorol. Bydd y swm yn cael ei ddiwygio bob blwyddyn yn dibynnu ar y cynllun rheoli lleol, a'i adolygu'n rheolaidd.

Bydd trefn restrol o ymgeiswyr ar gyfer pob prif bysgodfa yn cael ei chreu ar ôl i'r holl geisiadau ddod i law, a bydd nifer cyfyngedig o brif drwyddedau'n cael eu dyrannu bob blwyddyn ar sail y cyfanswm y caniateir ei gasglu bob tymor a'r asesiadau amgylcheddol perthynol. Bydd y prif drwyddedau a gyflwynir fesul pysgodfa yn ddilys am flwyddyn, ac yn cwmpasu'r holl gyfleoedd i bysgota o fewn y brif bysgodfa honno.

Bydd nifer y prif drwyddedau a ddyrennir mewn pysgodfa bob blwyddyn yn dibynnu ar y Cyfanswm y Caniateir ei Gasglu, sy'n seiliedig ar asesiadau amgylcheddol a dadansoddiad Tîm Gwyddoniaeth Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru o'r stoc. Y bwriad yw dyrannu cwota nominal o 25 tunnell fesul prif drwydded y flwyddyn yn y lle cyntaf, yn dibynnu ar yr asesiadau amgylcheddol a'r stoc. Os yw'r asesiadau stoc yn canfod bod llai o gyfle bysgota neu ddim o gwbl, yna bydd naill ai llai o drwyddedau yn cael eu dyrannu neu dim trwyddedau o gwbl.

I wneud cais am brif drwydded mewn unrhyw brif bysgodfa, rhaid cyflwyno tystiolaeth o weithgaredd bysgota blaenorol fel y nodir yn Atodiad 1, o fewn cyfnod ymgeisio llym. Rhaid i bob ymgeisydd fod â Thystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth ddilys, a chydymffurfio ag amodau'r drwydded.

Y bwriad yw cyfyngu ar nifer y trwyddedau sydd ar gael i unrhyw unigolyn o'r cychwyn cyntaf, pan ddaw'r cynllun diwygiedig i rym. Awgrymwyd y dylid cyfyngu ar hyn i hyd at ddwy brif drwydded neu drwyddedau i bysgota (mewn ardaloedd Gorchymynion Rheoleiddio) y pen yng Nghymru. Byddai hyn yn golygu cyfyngu ar y cyfleoedd i bysgota i ddwy o'r pedair prif bysgodfa yng Nghymru. Nod y cynnig yw sicrhau chwarae teg i bawb. Hoffem glywed eich barn ar y cynnig hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod tua chant o gasglwyr bellach yn dal trwydded i bysgota yn unol ag un o'r pysgodfeydd Gorchymyn Rheoleiddio yn Aber Afon Dyfrdwy neu Gilfach Tywyn. Cafodd y pysgodfeydd hyn eu sefydlu gan Orchymynion Rheoleiddio ac maent yn cael eu rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd. Mae gan nifer fach o gasglwyr drwydded i bysgota ar Aber Afon Dyfrdwy yn ogystal â Chilfach Tywyn. Fel y nodwyd o dan y cynigion hyn, awgrymwyd mai dim ond trwyddedau i bysgota yn nwy brif bysgodfa Cymru fyddai ar gael i bob ymgeisydd yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd angen mesur trosiannol o bosibl wrth gyflwyno'r Cynllun newydd, lle mae gan gasglwr ddwy

drwydded eisoes yn unol â'r Gorchmynion Rheoleiddio. Byddai'r deiliad trwydded hwnnw yn dal i allu gwneud cais am drwydded i bysgota yn un o'r ddwy brif bysgodfa arall y flwyddyn honno, ond byddai wedi'i gyfyngu i bysgota yn nwy o'r Prif Bysgodfeydd – er y bydd yn gallu dewis pa ddwy.

Rydym hefyd yn cynnig y dylai'r deiliaid trwydded wneud y gwaith casglu eu hunain a bod ganddynt gerdyn adnabod dilys. Ni fydd modd neilltuo neu werthu trwydded i rywun arall.

Bydd cynllun rheoli lleol manwl yn cael ei lunio mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Rheoli Lleol, a fydd yn llywio unrhyw gynigion i reoli pob Prif Bysgodfa. Bydd yn cynnwys rhestr lawn o'r holl amodau ar gyfer prif drwyddedau ym mhob pysgodfa, ac os bydd rhywun yn methu cydymffurfio ag unrhyw amod, gallai gollir drwydded arbennig honno.

Un o amodau'r drwydded fydd gorfod cario cerdyn trwydded Llywodraeth Cymru lle bynnag maen nhw'n casglu cocos, a sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ganddynt wrth law.

Rhaid i'r casglwyr hefyd gydymffurfio ag amodau ffurflen orfodol Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r cocos a gesglir. Bydd y system hon yn ategu system yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac Awdurdodau Lleol ar gyfer dogfennau symudiadau.

Gofynnir i'r deiliad trwydded bysgota o leiaf 75% o gyfanswm y ddalfa a ganiateir bob blwyddyn oni bai na allant wneud hynny am resymau rheoli. Bydd Ffurflen Casgliadau newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru yn cael ei defnyddio i gyfri'r gweithgaredd pysgota.

Dyrannu Trwyddedau ar gyfer y Prif Bysgodfeydd

Dim ond hyn a hyn o drwyddedau fydd ar gael ar gyfer bob prif bysgodfa, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd lefelau stocio ac er mwyn annog rhanddeiliaid i deimlo eu bod yn berchen ar gyfleoedd pysgota.

Rydym yn cynnig dyrannu trwyddedau ar sail pwyntiau mewn trefn restrol, fel y nodir yn Atodiad 1. Drwy wneud hyn, byddwn yn gallu defnyddio rhestr aros sefydlog er mwyn cynnig nifer o drwyddedau bob blwyddyn ar gyfer y prif bysgodfeydd sydd â stoc ddigonol. Os oes gan ymgeiswyr yr un faint o bwyntiau, yna byddwn yn dewis a dethol ar hap i benderfynu ar eu trefn restrol. Bydd ymgeiswyr y dyfodol yn ymuno â'r rhestr aros yn ôl trefn dyddiad ymgeisio.

Prentisiaeth

Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig cyflwyno cynllun prentisiaeth ar ôl sefydlu'r cynllun cocos newydd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i newydd-ddyfodiaid ddechrau casglu cocos. Dan y cynllun prentisiaeth, y bwriad yw bod deiliad trwydded yn cymryd prentis o dan ei adain, a'i hyfforddi dros sawl blwyddyn a rhannu'r dyraniad pysgota â'r prentis. Awgrymir hefyd fod y prentis yn dilyn hyfforddiant priodol wedi'i ardystio, er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau disgwylidig. Cynhelir ymgynghoriad byr maes o law cyn cyflwyno'r drefn hon.

Rheoliadau eraill sy'n berthnasol i gasglwyr cocos

Mae Atodiad 3 o Reoliad 853/2004 yr UE yn dweud mai dim ond molysgiaid dwygragenog byw o ardaloedd cynhyrchu sydd wedi'u dosbarthu gan awdurdod cymwys y gall casglwyr eu cynaeafu. Felly, dim ond molysgiaid dwygragenog byw o ardaloedd wedi'u dosbarthu y gellir eu cynaeafu.

Mae ardaloedd cynaeafu wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

- Dosbarth A – lle gellir cynaeafu molysgiaid dwygragenog i'w bwyta'n uniongyrchol gan bobl.
- Dosbarth B – lle mae'n rhaid puro molysgiaid dwygragenog (glanhau unrhyw facteria mewn uned buro gymeradwy); eu hailosod mewn ardal ailosod gymeradwy Dosbarth A; neu roi triniaeth wres iddynt gan ddefnyddio dull cymeradwy cyn y gellir eu gwerthu i'w bwyta gan bobl.
- Dosbarth C – lle mae'n rhaid ailosod molysgiaid dwygragenog (am o leiaf ddeufis) i fodloni gofynion Dosbarth A neu B, neu roi triniaeth wres iddynt.
- Ardal waharddedig – ardal lle na cheir cynaeafu molysgiaid dwygragenog byw i'w bwyta gan bobl.

Mae'r Rheoliad UE uchod yn berthnasol nawr, a dim ond mewn ardaloedd cynhyrchu wedi'u dosbarthu fel rhai ar gyfer casglu cocos y gall casglwyr gynaeafu molysgiaid dwygragenog byw. Mae'n rhaid i gasglwyr hefyd ystyried a chydymffurfio â rheoliadau Hylendid Bwyd a rheolau Awdurdodau Lleol ar gyfer pob Busnes Bwyd.

Er gwaethaf trwydded Cymru gyfan gan Lywodraeth Cymru sy'n caniatáu casglwr i gynaeafu cocos yn fasnachol, mae'n dilyn mai dim ond o welyau pysgod cregyn sydd wedi'u dosbarthu fel y cyfryw y gall deiliaid trwydded eu pysgota, er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd. Nod y Rheoliadau Hylendid Bwyd yw diogelu iechyd y cyhoedd, ac mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gweinyddu ac yn gorfodi'r rheoliadau hyn mewn cydweithrediad â'r Awdurdodau Lleol perthnasol. Dyma ddolen gyswllt i fapiau o'r ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu:

<http://www.cefas.defra.gov.uk/our-science/animal-health-and-food-safety/food-safety/classification-and-microbiological-monitoring/england-and-wales-classification-and-monitoring/classification-zone-maps.aspx>

Bydd angen i bob casglwr ofalu ei fod yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol sy'n cwmpasu meysydd fel yr amgylchedd, iechyd a diogelwch a rheoliadau trwyddedu gangfeistri.

Maint glanio

Rydym yn cynnig cyflwyno Isafswm Maint Glanio Cymru gyfan ar gyfer cocos (IMG), sef 20mm. 20mm yw'r maint glanio cyfredol ym mhysgodfa Aber Afon Dyfrdwy a reoleiddir, yn ogystal ag yn hen ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru. 19mm yw'r IMG ar gyfer hen ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr y De ar hyn o bryd. Dan y cynigion hyn, rydym yn

ystyried cyflwyno eithriadau i'r IMG, o bryd i'w gilydd, ar sail tystiolaeth wyddonol briodol.

Ffurflen Casgliadau Orfodol

Cynigir y bydd system ffurflen casgliadau orfodol ar gyfer cocos er mwyn rheoli'r broses o elwa ar yr adnodd hwn. Rydym yn cynnig cyflwyno system ffurflen casgliadau orfodol y byddai'n rhaid i'r casglwr ei llenwi cyn symud unrhyw lwyth o gocos. Rhaid i'r ffurflenni hyn gynnwys dyddiad y casglu, lleoliad y gweithgaredd, faint o gocos a gasglwyd ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall yr ystyrir sy'n angenrheidiol er mwyn rheoli'r gweithgaredd hwn.

Wrth ystyried y cynigion hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn trafod gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Awdurdodau Lleol i weld pa ofynion sydd eu hangen ar gyfer olrhain pysgod cregyn. Mae hyn yn cynnwys naill ai rhannu data a gasglwyd yn amlasiantaeth ac o bosibl diwygio'r gofynion adrodd ar Hylendid Bwyd.

Atodiad 1

Trefn Restrol sefydlog

Bydd trefn restrol yn penderfynu ym mha drefn y byddwn yn dyrannu trwyddedau ar gyfer pob prif bysgodfa. Bydd y rhestr yn cael ei llunio ar sail y meini prawf isod gyda phwyntiau am bob tystiolaeth a welir. Bydd safle'r ymgeisydd ar y rhestr yn dibynnu ar faint o bwyntiau sydd ganddo.

Meini prawf	Pa dystiolaeth sydd ei hangen	Blwyddyn gyfeirio	Sawl pwynt
Trwydded a ffurflenni casgliadau	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd ar gyfer Pysgodfa Gocos benodol , a'r Ffurflen Casgliadau hefyd wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr <i>(Ile dyrannwyd trwyddedau ar gyfer y flwyddyn honno)</i>	2006	6
Trwydded a ffurflenni casgliadau	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd ar gyfer Pysgodfa Gocos benodol , a'r Ffurflen Casgliadau hefyd wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr <i>(Ile dyrannwyd trwyddedau ar gyfer y flwyddyn honno)</i>	2007	6
Trwydded a ffurflenni casgliadau	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd ar gyfer Pysgodfa Gocos benodol , a'r Ffurflen Casgliadau hefyd wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr <i>(Ile dyrannwyd trwyddedau ar gyfer y flwyddyn honno)</i>	2008	6
Trwydded a ffurflenni casgliadau	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd ar gyfer Pysgodfa Gocos benodol , a'r Ffurflen Casgliadau hefyd wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr <i>(Ile dyrannwyd trwyddedau ar gyfer y flwyddyn honno)</i>	2009	6
Trwydded a ffurflenni casgliadau	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd ar gyfer Pysgodfa Gocos benodol , a'r Ffurflen Casgliadau hefyd wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr <i>(Ile rhoddwyd trwyddedau ar gyfer y flwyddyn honno)</i>	2010	6
Trwydded a ffurflenni casgliadau	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd ar gyfer unrhyw Bysgodfa Gocos arall , a'r Ffurflen Casgliadau hefyd wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr	2006	5
Trwydded a ffurflenni casgliadau	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd ar gyfer unrhyw Bysgodfa Gocos arall , a'r Ffurflen Casgliadau hefyd wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr	2007	5
Trwydded a ffurflenni casgliadau	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd ar gyfer unrhyw Bysgodfa Gocos arall , a'r Ffurflen Casgliadau hefyd wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr	2008	5
Trwydded a ffurflenni casgliadau	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd ar gyfer unrhyw Bysgodfa Gocos arall , a'r Ffurflen Casgliadau hefyd wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr	2009	5
Trwydded a ffurflenni casgliadau	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd ar gyfer unrhyw Bysgodfa Gocos arall , a'r Ffurflen Casgliadau hefyd wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr	2010	5
Ffurflen dreth	Ffurflen dreth (i'w hardystio gan HMRC) ar gyfer y flwyddyn dreth gyfeirio yn dangos tystiolaeth o gyfranogi'n wirioneddol fel casglwr cocos masnachol.	2006-2007	4
Ffurflen dreth	Ffurflen dreth (i'w hardystio gan HMRC) ar gyfer y flwyddyn dreth gyfeirio yn dangos tystiolaeth o gyfranogi'n wirioneddol fel casglwr cocos masnachol.	2007-2008	4
Ffurflen dreth	Ffurflen dreth (i'w hardystio gan HMRC) ar gyfer y flwyddyn dreth gyfeirio yn dangos tystiolaeth o gyfranogi'n wirioneddol fel casglwr cocos masnachol.	2008-2009	4
Ffurflen dreth	Ffurflen dreth (i'w hardystio gan HMRC) ar gyfer y flwyddyn dreth gyfeirio yn dangos tystiolaeth o gyfranogi'n wirioneddol fel casglwr cocos masnachol.	2009-2010	4

Ffurflen dreth	Ffurflen dreth (i'w hardystio gan HMRC) ar gyfer y flwyddyn dreth gyfeirio yn dangos tystiolaeth o gyfranogi'n wirioneddol fel casglwr cocos masnachol.	2010-2011	4
Y drwydded sydd gan yr unigolyn	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd yn y flwyddyn gyfeirio ar gyfer y bysgodfa gocos benodol ond heb gyflwyno ffurflen casgliadau. <i>(Ile dyrannwyd trwyddedau ar gyfer y flwyddyn honno)</i>	2006	3
Y drwydded sydd gan yr unigolyn	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd yn y flwyddyn gyfeirio ar gyfer y bysgodfa gocos benodol ond heb gyflwyno ffurflen casgliadau. <i>(Ile dyrannwyd trwyddedau ar gyfer y flwyddyn honno)</i>	2007	3
Y drwydded sydd gan yr unigolyn	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd yn y flwyddyn gyfeirio ar gyfer y bysgodfa gocos benodol ond heb gyflwyno ffurflen casgliadau. <i>(Ile dyrannwyd trwyddedau ar gyfer y flwyddyn honno)</i>	2008	3
Y drwydded sydd gan yr unigolyn	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd yn y flwyddyn gyfeirio ar gyfer y bysgodfa gocos benodol ond heb gyflwyno ffurflen casgliadau. <i>(Ile dyrannwyd trwyddedau ar gyfer y flwyddyn honno)</i>	2009	3
Y drwydded sydd gan yr unigolyn	Wedi gwneud cais am drwydded a ddyrannwyd yn y flwyddyn gyfeirio ar gyfer y bysgodfa gocos benodol ond heb gyflwyno ffurflen casgliadau. <i>(Ile dyrannwyd trwyddedau ar gyfer y flwyddyn honno)</i>	2010	3
Trwyddedau eraill sydd gan yr unigolyn	Dyrannwyd trwydded ar gyfer y flwyddyn gyfeirio ar gyfer unrhyw bysgodfa gocos arall yng Nghymru , ond heb gyflwyno ffurflen casgliadau.	2006	2
